| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 5 Mehefin 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cydlynydd ar gyfer Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 |
| **Teitl:** | **Archwiliad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ac Adroddiad Blynyddol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Dyma'r adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar ddefnydd y Cyngor o'i bwerau gwyliadwriaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000 ynghyd â chanlyniadau'r archwiliad RIPA sy'n cael ei gynnal o ddeutu pob tair blynedd.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

**O dan God Ymarfer y Swyddfa Gartref, mae'n ofynnol i'r Cyngor o leiaf gyflwyno adroddiadau blynyddol i aelodau ynglŷn â defnydd yr awdurdod o'i bwerau o dan y drefn hon.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn unrhyw adroddiadau o archwiliadau allanol fel mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei nodi.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad allanol ac yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r camau a gymerwyd yn unol ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

**4. Manylion yr adroddiad**

Cafodd y Cyngor archwiliad 'pen desg' am y tro cyntaf; y trefniadau newydd sydd wedi'u rhoi ar waith gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth gynt) lle mae archwiliad cychwynnol yn cael ei wneud heb ymweld cyn penderfynu wedyn a oes angen archwiliad ymweliadol. Mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol yn falch o ddweud bod yr Arolygydd yn fodlon â dull y Cyngor o lywodraethu yn y maes hwn dros y tair blynedd ddiwethaf, ei fod wedi cwblhau ei archwiliad fel archwiliad 'pen desg' ac, yn bwysig, bod ein ceisiadau a'n hawdurdodiadau o safon uchel. Mae copi o Adroddiad yr archwiliad yn Atodiad 1.

Gan ddilyn argymhellion yr Arolygydd, mae'r polisi wedi'i ddiweddaru ac mae'n cael ei gyfieithu ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

Pan gyflwynwyd yr adroddiad blynyddol diwethaf, dywedodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer RIPA y byddai hyfforddiant mewnol yn cael ei ddarparu i swyddogion ymchwilio a swyddogion awdurdodi gydag astudiaethau achos ymarferol. Cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn ac fe welodd yr arolygydd y deunydd hyfforddi ac roedd yn fodlon â'r cynnwys. Ers yr archwiliad, mae un Cyfreithiwr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi bod ar gwrs hyfforddi cyfreithiol penodol ar wyliadwriaeth gudd a'r cyfryngau cymdeithasol; y bwriad dros y 6 mis nesaf yw i'r deunyddiau sy'n cael eu creu'n fewnol gael eu diwygio i adlewyrchu'r wybodaeth newydd hon.

O ran y diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor hwn, nid oes unrhyw weithgarwch wedi bod o ran defnyddio'r pwerau hyn ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor yn y 12 mis diwethaf; mae adroddiad archwilio Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn un pob tair blynedd ac mae'n cyfeirio at weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r pwerau yn y gorffennol ar gyfer tipio anghyfreithlon, troseddau amgylcheddol, achosion o werthu pethau'n anghyfreithlon i rai dan oed fel alcohol neu dân gwyllt, lles anifeiliaid ac ati. Ni chaiff ceisiadau eu gwneud gyda'r gobaith o ddod o hyd i wybodaeth. Fel arfer, mae'r gwasanaeth yn derbyn tystiolaeth sy'n cefnogi'r gofyn am wyliadwriaeth.

Mae gweithgor RIPA y Cyngor wedi parhau i gyfarfod yn ôl yr angen, yn enwedig os oes unrhyw newidiadau i Godau Ymarfer neu Ganllawiau'r Swyddfa Gartref neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth; i ystyried dulliau ar gyfer gweithrediadau penodol neu feysydd lle gallai RIPA gynorthwyo ag unrhyw broblemau gorfodi neu i gyflwyno unrhyw sylwadau o unrhyw Archwiliad neu gan aelodau o'r Pwyllgor hwn.

Bydd y gweithgor yn cyfarfod ar ôl cael yr adborth hwn gan y Pwyllgor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae'r adroddiad yn rhoi manylion archwiliad o drefniadau llywodraethu un o weithgareddau'r Cyngor i'r aelodau.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae'r costau'n cael eu talu o adnoddau sy'n bod eisoes ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol ac eithrio sesiwn hyfforddi ddiweddar ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn costio llai na £200.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**
Dim ei angen.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**
Nid oedd angen ymgynghori.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Dim ei angen.

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Wrth ddefnyddio ei bwerau o dan y drefn hon, gall y Cyngor fod mewn perygl o effeithio ar hawl unigolyn i fywyd preifat a theuluol fel y nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  Mewn unrhyw achos o arfer y pwerau hyn, mae angen i'r Cyngor nodi, yn gynhwysfawr iawn, mewn cais i Swyddog Awdurdodi ac yna i'r Llys Ynadon, y rhesymau a'r sail ar gyfer y wyliadwriaeth, a ddylai fynd i'r afael â pham mae hi'n gymesur ymyrryd â hawliau dynol unrhyw unigolyn.

Bydd unrhyw risgiau yn cael eu lleihau drwy hyfforddi'r swyddogion sy'n defnyddio'r pwerau hyn yn rheolaidd a thrwy gael y Swyddog Monitro i oruchwylio gweithgareddau fel hyn yn fanwl.  Caiff y Cyngor hefyd ei archwilio bob tair blynedd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth a chaiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl ei dderbyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.